

Ymgynghoriad ar newidiadau yng Ngorchymyn y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) 2008

Atodiad 1 Dadansoddiad o ganlyniadau Pleidleisiau'r Sectorau Garddwriaeth a Thatws

Ym mis Ionawr a mis Chwefror eleni, sbardunodd talwyr ardollau pleidleisiau yn y sectorau Garddwriaeth a Thatws a pharhaodd y ddwy bleidlais am bedair wythnos. Sbardunwyd y pleidleisiau hyn o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn dilyn ceisiadau dilys gan fwy na 5% o'r talwyr ardollau. Daeth y bleidlais garddwriaeth i ben ar 10 Chwefror 2021, gyda 61% yn pleidleisio "na" i barhau â'r ardoll o blith y 69% o dalwyr ardollau a bleidleisiodd. Daeth y bleidlais ar yr ardoll Thatws i ben ar 17 Mawrth 2021. Yn y bleidlais hon, pleidleisiodd 66% "na" i barhau â'r ardoll o blith y 66% o'r rhai cymwys a fwriodd bleidlais.

Canlyniadau Manwl y Bleidlais Garddwriaeth

Yn gyffredinol, mae canlyniad y bleidlais yn dangos bod y mwyafrif o dalwyr ardollau a bleidleisiodd dros newid (gyda 61% o'r rhai a bleidleisiodd yn pleidleisio 'na' i barhau â'r ardoll) ond eithaf cymysg yw'r darlun manwl. Mae dadansoddiad o'r bleidlais fesul is-sector yn dangos bod yr is-sector ffrwythau meddal, ffrwythau coed a madarch wedi pleidleisio i gadw'r ardoll tra pleidleisiodd llysiâu'r maes, planhigion addurnol a ddiogelir a stoc galed y feithrinfa dros ddod â'r ardoll i ben. Nodir dadansoddiad o ganlyniadau'r bleidlais isod, ond am resymau diogelu data lle'r mae setiau data'n rhy fach i'w hadrodd yn unigol, rydym wedi eu cyfuno â chategoriâu eraill.

Cnwd Sylfaenol	Pleidleisio IE dros barhau â'r ardoll	Pleidleisio NA dros barhau â'r ardoll
Llysiâu'r maes	88	161
Ffrwythau coed	61	32

Ffrwythau meddal	44	42
Planhigion bwyriadwy a ddiogelir	24	36
Planhigion addurnol a ddiogelir, bylbiau, a blodau awyr agored	45	99
Stoc galed y feithrinfa	43	111
Cnydau heb eu datgan a madarch **	9	7

** Mae'r data yn y ddau gategori hyn wedi'i gyfuno am resymau diogelu data.

Canlyniadau Manwl Pleidlais y Sector Tatws

Yn gyffredinol, mae'r bleidlais yn dangos bod y mwyafrif o dalwyr ardollau a bleidleisiodd am weld newid (gyda 66% o'r rhai a bleidleisiodd yn pleidleisio 'na' i barhau â'r ardoll). Ond, mae dadansoddiad o bleidlais y prynwyr tatws a'r tyfwyr tatws yn dangos bod y prynwyr lleiaf (y rhai sy'n prynu gwerth llai na £5,000 y flwyddyn) wedi pleidleisio'n bennaf i atal yr ardoll, ond bod tyfwyr tatws wedi pleidleisio'n bennaf i atal yr ardoll drwyddi draw. Nodir dadansoddiad o ganlyniadau'r bleidlais isod, ond am resymau diogelu data lle mae'r setiau data yn rhy fach i'w hadrodd yn unigol, rydym wedi'u cyfuno â bandiau eraill.

Prynwyr Tatws	Pleidleisio IE dros barhau â'r ardoll	Pleidleisio NA dros barhau â'r ardoll
Band A a Band B £10K > £50K + **	9	7
Band C a Band D - £1K > £10K **	8	36
Band E a Band F- £0 >£1K **	8	72

** Mae'r data yn y ddau gategori hyn wedi'i gyfuno am resymau diogelu data.

Tyfwyr Tatws	Pleidleisio IE dros barhau â'r ardoll	Pleidleisio NA dros barhau â'r ardoll
Band A - 200+ Hectar	18	57
Band B – 100 > 200 Hectar	60	88
Band C – 50 > 100 Hectar	82	134
Band D – 10 > 50 Hectar	158	301
Band E a Band F – 0 >10 Hectar **	59	99

** Mae'r data yn y ddau gategori hyn wedi'i gyfuno am resymau diogelu data.